Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Iolo Morganwg

**Broadway
Y Bont-Faen
CF71 7ER**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Iolo Morganwg

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Iolo Morganwg |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 203 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 139 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 41 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%) | 2.5% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran genedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector cynradd yw 22.2%) | 4.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 73.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 06/11/2017 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 21/05/2013 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Iolo Morganwg yn cynnig amgylchedd ddysgu ysgogol a hapus sy’n rhoi blaenoriaeth uchel i les ei disgyblion. Mae gan yr ysgol ethos Cymreig a chynnes. Mae staff yn cydweithio’n effeithiol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu disgyblion. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i ddatblygu fel dinasyddion cydwybodol, hyderus a dwyieithog.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn iawn o’u mannau cychwyn, a cheir darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan ddisgyblion lais cryf yn yr ysgol, ac maent yn ffynnu yn eu rolau fel anogwyr dysgu. Maent yn cyfrannu’n dda at eu themâu tymhorol, ac yn dyfalbarhau’n arbennig o dda yn ystod eu gweithgareddau. Mae’r disgyblion yn mwynhau ymchwilio wrth ddarganfod gwybodaeth o fewn eu cynefin yn lleol, er enghraifft wrth ddysgu am daith y bananas o’r Caribî i’r Barri.

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac mae ei bwrlwm a’i harweiniad o ran datblygu’r cwricwlwm newydd yn allweddol. Caiff y cwricwlwm ei ddylunio o gwmpas gwerthoedd newydd yr ysgol a’r weledigaeth gytûn. Mae staff yn darparu profiadau dysgu cyffrous sy’n galluogi’r disgyblion i ddatblygu’r medrau sydd eu hangen arnynt i fanteisio ar y cwricwlwm cyfan a dysgu’n effeithiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fwynhad y disgyblion o’u profiadau dysgu ac ar eu cynnydd cryf o’u mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i’r disgyblion ysgrifennu’n estynedig ymhob dosbarth. Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn elwa o gyfleoedd dysgu proffesiynol sy’n cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu.

Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn gofyn cwestiynau heriol ynglŷn â phenderfyniadau pan fydd angen. Maent yn falch o gynnydd y disgyblion wrth iddynt ddatblygu’n ddysgwyr dwyieithog, hyderus.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y cynllunio ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion yn ddigon trylwyr ym mhob dosbarth

A2 Darparu adborth benodol er mwyn i ddisgyblion wybod yn iawn beth yw eu camau nesaf i wella ansawdd eu gwaith

A3 Cryfhau a miniogi cynllun datblygu'r ysgol er mwyn gallu mesur effaith y camau gwella ar y ddarpariaeth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau yn y dosbarth meithrin â medrau mewn iaith a datblygiad mathemategol sydd ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn iawn. Mae'r disgyblion sy'n fregus a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn datblygu hyder cynyddol ac yn dyfalbarhau'n llwyddiannus â'u gweithgareddau dysgu.

Mae disgyblion yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn gwrando'n astud ac yn rhyngweithio'n effeithiol gydag oedolion gan ddatblygu medrau llefaredd, iaith a chyfathrebu cadarn. Maent yn llwyddo i ail-ddweud digwyddiadau cyfarwydd yn hyderus, er enghraifft wrth iddynt ddefnyddio map stori i alw i gof stori'r Heuwr. Erbyn Blwyddyn 2 mae'r rhan fwyaf yn defnyddio cystrawennau naturiol Cymreig wrth iddynt greu sioe bypedau llwyddiannus o stori 'Criw'r Coed a'r Gwenyn Coll'. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu medrau llafar yn fedrus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaeth ddosbarth gan fynegi eu barn yn glir ac aeddfed. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn deall beth yw manteision dwyieithrwydd. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth sgwrsio gyda'i gilydd mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio eu medrau darllen yn hyderus, er enghraifft wrth ddarllen gwybodaeth i ddarganfod ffeithiau am Owain Glyndŵr. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol yn y ddwy iaith. Maent yn amrywio goslef eu llais ac yn defnyddio atalnodi'n  gywir i ddangos eu dealltwriaeth. Yn ogystal, maent yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn bwrpasol i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft wrth ddod o hyd i wybodaeth am Betty Campell, sydd yn dyfnhau eu dealltwriaeth o hiliaeth a chydraddoldeb hil.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu yn llwyddiannus. Dangosant ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd elfennau atalnodi a chywirdeb wrth sillafu. Mae disgyblion Blwyddyn 1 yn chwarae â geiriau'n gelfydd wrth lunio cwpledi sy'n odli ar gyfer ysgrifennu cerdd am fyd natur. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n effeithiol mewn amrediad o gyd-destunau ffeithiol a chreadigol, yn y ddwy iaith. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu dyddiadur o safbwynt Iddew yn ystod yr Ail Ryfel Byd sydd yn dangos empathi a chydymdeimlad.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd cadarn â'u medrau mathemateg a rhifedd. Ar waelod yr ysgol, maent yn adnabod rhifau i 10 ac yn cyfrif at ugain. Mae disgyblion yn y dosbarth derbyn yn llwyddo i gyfrifo newid o 10c yn llwyddiannus wrth werthu nwyddau yn y siop. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn adeiladu'n dda ar eu gwybodaeth rhif ac yn eu defnyddio'n llwyddiannus mewn meysydd ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 3 ddadansoddi data'n effeithiol i gymharu'r tywydd yn Nairobi a'r Bont-faen. Mae rhan

fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o siâp yn hyderus, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 6 adeiladu siapiau 3D amrywiol a defnyddio fformiwla ar gyfer cyfrifo nifer yr ymylon.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau digidol yn fedrus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn rheoli teclyn rhaglenadwy yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol, gan gynnwys disgyblion Blwyddyn 4, yn datblygu eu gallu i gyfuno dulliau amlgyfrwng mewn ffyrdd cynyddol gymhleth. Maent yn creu testun, delweddau, graffigwaith, sain a fideo mewn cyfuniad er mwyn darparu cyflwyniad effeithiol, er enghraifft ar Ferched y Môr.

Mae llawer o'r disgyblion yn rhyngweithio'n effeithiol â'i gilydd wrth ymestyn eu medrau meddwl i ddatrys problem, er enghraifft wrth ystyried nodweddion pwysig wrth adeiladu pont sy'n ateb meini prawf penodol.

Mae datblygiad medrau artistig a cherddorol y disgyblion yn effeithiol, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 4 ddylunio a gwnïo creadur môr ac wrth i ddisgyblion Blwyddyn 3 berfformio cân rythmig, Affricanaidd. Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn ymroi'n frwdfrydig i weithgareddau cynhesu mewn gwers addysg gorfforol tra mae disgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu medrau corfforol drwy gymryd rhan mewn amryw weithgareddau chwaraeon.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae lles ac agweddau cadarnhaol y disgyblion at ddysgu yn gryfder amlwg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u trin yn deg gan yr athrawon ac mae hyn yn cyfrannu at yr ethos cyfeillgar a chynnes sy'n rhan mor amlwg o fywyd bob dydd yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn dangos yr un parch at eu cyfoedion ac at oedolion yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol.

Yn ystod gwersi ac yn ystod amser egwyl, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn dangos parodrwydd ac awch i ymgymryd â'r heriau a gynigir iddynt ac yn mynd ati â brwdfrydedd i gyflawni eu tasgau. Mae hyder a gwydnwch yn y ffordd y maent yn ymgymryd â'u tasgau yn y dosbarth ac yn yr awyr agored ac maent yn medru canolbwyntio am gyfnodau estynedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dyfalbarhad wrth ddatrys problemau, er enghraifft wrth ddyfeisio ffyrdd effeithiol o drosglwyddo dŵr o'r prif adeilad i'r pwll dŵr yn ardal y goedwig wyllt.

Mae cefnogi lles emosiynol y disgyblion yn flaenoriaeth yn yr ysgol ac, o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn deall sut i ymateb yn briodol i sefyllfaoedd sy'n effeithio ar eu lles emosiynol. Mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel o fewn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel rhag cam-drin corfforol a geiriol. Mae'r cyngor ysgol wedi cael eu cynnwys yn y broses o adolygu'r polisi gwrthfwlio ac mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n hyderus fod yr ysgol yn ymdrin yn gyflym ac yn effeithiol gydag unrhyw achosion o fwlio.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth o'r angen i gadw'n heini a bwyta'n iach ac maent yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i wneud dewisiadau iach yn eu bywyd yn yr ysgol a thu hwnt. Maent yn esbonio pam mae'n fuddiol bwyta byrbrydau iach yn ystod amseroedd chwarae a pham y dylid osgoi bwydydd gyda gormod o

fraster a halen. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd ac yn mwynhau cymryd rhan mewn sesiynau ymarfer corff, sesiynau ioga a chlybiau chwaraeon allgyrsiol. Mae’r plant lleiaf yn mwynhau datblygu eu medrau corfforol ar y beiciau bach.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd dinasyddiaeth foesol trwy eu hymwybyddiaeth o’r gwerthoedd allweddol sy’n cael eu hyrwyddo ar arfbais yr ysgol, a ddyluniwyd gan y disgyblion. Mae’r disgyblion hŷn yn medru esbonio pwysigrwydd cydraddoldeb fel rhan o'u gwaith ar hawliau, er enghraifft wrth drafod thema gwreiddiau aml-hiliol mewn cerddi cyfoes. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos empathi tuag at eraill ac maent yn awyddus i roi cymorth i’r rhai sydd mewn angen, er enghraifft drwy blannu blodau haul i godi ymwybyddiaeth o drallod pobl yr Wcráin.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd eu cyfrifoldebau arweinyddiaeth o ddifri, gyda disgyblion yn aelodau brwd o’r cyngor ysgol, y pwyllgor eco, y llysgenhadon, y Criw Calon Cymru a’r dewiniaid digidol. Maent yn trafod eu cyfrifoldebau arwain yn hyderus ac yn cynnig rhesymau deallus am wneud penderfyniadau. Maent yn cael cyfleoedd cyson i adrodd yn ôl i weddill yr ysgol am eu penderfyniadau ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod arweinwyr yn gwrando ar eu barn. Mae llais y plentyn yn amlwg ym mywyd bob dydd yr ysgol, er enghraifft wrth lywio’r addysgu yn ystod sesiynau ‘Heriau Hwylus’. Drwy waith y dewiniaid digidol a’r ‘We Ffrind’, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i gadw’n ddiogel ar lein.

Yn dilyn y pandemig, nid yw arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blwyddyn academaidd 2021-2022. Yn hytrach, adroddir ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o Faes Arolygu 4.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gweledigaeth yr ysgol o ran y cwricwlwm, sef ‘Hwyl iddynt oll wrth lwyddo’, yn ganolbwynt i’r dysgu. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio’n feddylgar ar gyfer profiadau dysgu diddorol sy’n adlewyrchu ethos yr ysgol, ac yn annog disgyblion i ddatblygu’n ddysgwyr uchelgeisiol a hyderus. Mae cyfleoedd priodol i’r disgyblion gyfrannu at eu dysgu eu hunain, fel trafod eu syniadau yn agored a holi cwestiynau penodol cyn cychwyn ar themâu newydd. O ganlyniad, maent yn dangos brwdfrydedd a diddordeb yn eu dysgu.

Mae athrawon, a disgyblion ar frig yr ysgol, yn myfyrio ar effeithiolrwydd y cwricwlwm yn rheolaidd ac maent yn rhoi ystyriaeth briodol i ddatblygiadau tuag at y cwricwlwm newydd. Mae athrawon yn meddwl yn ofalus am bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, sydd bellach wedi’u hymgorffori yng ngwerthoedd yr ysgol, a sut y gellir adlewyrchu’r rhain wrth iddynt gynllunio eu cwricwlwm. Er enghraifft, fel rhan o’r gwerthoedd tegwch a pharch, mae disgyblion yn trafod hiliaeth a dylanwad pêl-droedwyr ar yr ymgyrch ryngwladol i leihau hyn yn y terasau ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Ers dychwelyd i’r ysgol, yn dilyn y pandemig, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd ar gyfer ymweliadau a theithiau i ehangu’r dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn ymweld ag amgueddfa Rufeinig yng Nghaerllion i ddysgu am fywyd y Rhufeiniaid. Mae ymarferwyr hefyd yn manteisio ar y cyfleoedd i wahodd ymwelwyr

i’r ysgol i gyfoethogi’r dysgu. Er enghraifft, mae hanesydd o’r amgueddfa yn y Bont-faen yn dod ag arteffactau Rhufeinig i gyfoethogi’r gwaith thema.

Mae perthnasoedd da rhwng y staff a’r disgyblion. Mae’r athrawon a’r cymorthyddion yn gofalu’n gydwybodol a theyrngar am eu disgyblion. Mae hyn yn atgyfnerthu’r ymdeimlad cryf gan y disgyblion fod yr ysgol yn lle hapus a gwerthfawr. Mae gan athrawon a staff cymorth ddisgwyliadau uchel o ymddygiad. Defnyddiant ganmoliaeth ac anogaeth yn briodol, ac mae hyn yn creu amgylchedd ddysgu weithgar. Mae’r systemau gwobrwyo wythnosol bellach yn plethu â gwerthoedd yr ysgol, er enghraifft wrth hybu’r disgyblion fod ymdrech a dyfalbarhau, yn bwysig, law yn llaw â chyflwyno darn da o waith gorffenedig.

Ar y cyfan, mae’r athrawon yn darparu profiadau dysgu sy’n rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso elfennau o lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn fedrus ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion ar frig yr ysgol yn defnyddio’r medrau hyn yn gelfydd i lunio adroddiad er mwyn cynhyrchu ffilm ddigidol apelgar ar gymeriad allweddol o Gymru. Fodd bynnag, nid yw’r cynllunio ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion yn ddigon trylwyr ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw’r disgyblion ym mhob dosbarth yn cael cyfle i ysgrifennu’n estynedig mewn ystod o ffurfiau ar draws y cwricwlwm. Mae ansawdd y profiadau ar waelod yr ysgol yn gyfoethog ac maent yn gwneud defnydd effeithiol o’r ardal allanol apelgar, er enghraifft wrth chwilota am drychfilod amrywiol.

Mae’r athrawon yn defnyddio technegau holi amrywiol yn effeithiol er mwyn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn sicrhau rhediad llyfn i’w gwersi ac yn defnyddio cydbwysedd o dechnegau effeithiol sy’n cynnwys gweithgareddau gwaith pâr a gwaith grŵp sy’n datblygu medrau ieithyddol a chymdeithasol gwerthfawr. Mae’r rhan fwyaf yn gosod amcanion dysgu clir ac yn defnyddio ystod o adnoddau diddorol i ennyn diddordeb disgyblion a chefnogi’r dysgu. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ddefnyddio’u gwybodaeth flaenorol a’u medrau meddwl yn effeithiol wrth gwblhau tasgau.

Mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn cynnig adborth adeiladol i’r disgyblion er mwyn iddynt ddeall sut i wella eu gwaith, yn enwedig ar lafar. Mae cysondeb bellach yn y strategaethau hyn o ddefnyddio canmoliaeth ac adborth yn bwrpasol er mwyn dathlu llwyddiannau. Fodd bynnag, nid yw’r adborth yn ddigon penodol er mwyn i’r disgyblion wybod yn iawn beth yw eu camau nesaf er mwyn gwella ansawdd eu gwaith.

Mae’r athrawon yn modelu iaith yn feistrolgar. Mae ethos Cymreig cryf yr ysgol, ynghyd â'r ddarpariaeth, yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd pwrpasol o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. O ganlyniad, maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae’r holl staff yn cyfrannu’n llwyddiannus i ddatblygu ethos hapus, gofalgar a diogel yn yr ysgol. Maent yn meithrin gwerthoedd cytûn fel gofal, caredigrwydd, tegwch a pharch yn arbennig o dda, Caiff hyn ei amlygu yn agwedd ac ymddygiad cadarnhaol y disgyblion o amgylch yr ysgol. Mae trefniadau’r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri gofid.

Trwy gyfleoedd creadigol cyson yr ysgol, perfformiadau fel Gŵyl Fach y Fro yn lleol a chystadlaethau'r Urdd yn rhanbarthol a chenedlaethol, mae staff yn cefnogi'r disgyblion i fagu hyder i gymryd rhan mewn amrywiaeth ddiddorol o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r cyfleoedd hyn yn cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddefnyddio'u dychymyg a mireinio eu medrau creadigol wrth ymgysylltu â'r celfyddydau mynegiannol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth efelychu gemwaith traddodiadol o Kenya.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd sy'n cyfrannu at ddatblygu medrau ysbrydol a moesegol disgyblion yn dda, ac yn cynorthwyo disgyblion i ymchwilio i faterion sy'n gysylltiedig â goddefgarwch a pharch at bobl eraill. Er enghraifft, mae canolbwyntio ar brosiect efeillio gydag ysgol yn Kenya yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion fyfyrio ar negeseuon pwysig, fel goddefgarwch a helpu pobl eraill, a'u cysylltu â'u profiadau eu hunain.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cynnwys rhaglenni cefnogi pwrpasol. Mae arweinwyr yn olrhain cynnydd y disgyblion hyn mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau unigol, a'u cynnydd o'u mannau cychwyn. Mae athrawon yn manteisio'n rhagweithiol ar wasanaethau a phartneriaethau i ddarparu cymorth pwrpasol i ddysgwyr, sy'n cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gweithdrefnau llwyddiannus ar waith i olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Mae staff yn adnabod y disgyblion a allai elwa o gymorth ychwanegol, yn gynnar. Maent yn darparu amrywiaeth bwrpasol o ymyraethau sy'n cynorthwyo'r disgyblion hyn i wneud cynnydd gwerthfawr wrth ddatblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd, a gwella'u lles. Mae'r ffocws diweddar ar gryfhau cymorth ac arweiniad ar gyfer anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn eu galluogi i ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu. Caiff y cymorth hwn ei ddarparu yn yr ystafell 'Cwtch' sydd yn awyrgylch ddysgu braf. O ganlyniad i ddysgu sut i fynegi teimladau a rheoli eu hemosiynau'n effeithiol, mae'r disgyblion hyn yn hapusach ac yn cwblhau tasgau dosbarth yn fwy hyderus. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn defnyddio cyfarfodydd â'r athrawon a'r cymorthyddion i werthuso effaith y cymorth hwn yn rheolaidd. Gyda'i gilydd, maent yn gosod camau defnyddiol ar gyfer gwella sy'n galluogi disgyblion i barhau i wneud cynnydd priodol.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymgymryd â sesiynau lles corfforol. Mae'r rhain yn ysgogi'r disgyblion i gadw'n heini ac i werthfawrogi pwysigrwydd hynny; er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn deall beth yw effaith ymarfer ar guriad eu calon. Mae'r ysgol yn hyrwyddo lles disgyblion yn fwriadus ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd meddwl yn ogystal â'u hiechyd corfforol. Enghraifft dda o hyn yw'r sesiynau ioga a'r ddarpariaeth reolaidd yn y goedwig wyllt ble caiff y disgyblion weithio'n hyderus yn yr awyr iach i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o enwau coed a blodau sy'n tyfu ar dir yr ysgol.

Mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn hybu'r Gymraeg ac yn ymwreiddio Cymreictod i ddisgyblion yn llwyddiannus. Maent yn ennyn balchder disgyblion at eu hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant trwy weithgareddau diddorol, er enghraifft seremoni cadeirio yn efelychu'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mlwyddyn 2**.**

Mae athrawon yn annog disgyblion i fod yn annibynnol yn eu dysgu ac i fanteisio ar y cyfleoedd i ymgymryd â chyfrifoldebau a chyfrannu at waith yr ysgol a'r gymuned yn ehangach. Mae'r ethos cynhwysol sy'n bodoli yn sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd da i fod yn aelodau o'r amrywiol gynghorau fel Criw Calon Cymru, dewiniaid digidol, cyngor eco a'r cyngor ysgol. Mae'r cynghorau'n cyfarfod yn rheolaidd ac mae eu cyfraniad at waith yr ysgol a'r gymuned yn werthfawr iawn. Er enghraifft, mae llysgenhadon yr ysgol yn wybodus iawn wrth dywys ymwelwyr o amgylch yr ysgol.

Mae arweinwyr yn monitro presenoldeb disgyblion drwy drefniant cadarn wrth gydweithio'n agos â rhieni ac asiantaethau allanol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth effeithiol a chadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth eglur sy'n seiliedig ar baratoi disgyblion i fod yn ddinasyddion hyderus, mentrus ac uchelgeisiol mewn amgylchedd diogel. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni. O ganlyniad, mae ethos gofalgar, gweithgar a Chymreig yn amlwg yn yr ysgol. Mae ei chyfeiriad strategol pwrpasol yn ysbrydoli athrawon a chymorthyddion dysgu i gynnal a chodi safonau. Rhanna'r staff yr uchelgais hon gyda'r disgyblion ac mae hybu gwerthoedd cytûn yn rhan annatod o fywyd yr ysgol. Mae arwyddair yr ysgol, sef "Hwyl iddynt oll wrth lwyddo", yn treiddio'n amlwg iawn trwy'r ysgol. Trwy hyn, mae balchder a dealltwriaeth gytûn rhwng y staff a'r disgyblion o werthoedd newydd yr ysgol.

Mae trefniadau hunanwerthuso'r ysgol yn effeithiol. Mae arweinwyr yn ystyried tystiolaeth uniongyrchol a barn rhieni, disgyblion a staff drwy ddadansoddi holiaduron wrth werthuso perfformiad yr ysgol. Er y bu'n rhaid addasu gweithgareddau'r broses monitro yn sgîl y pandemig, mae arweinwyr, ar y cyfan, yn adnabod agweddau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, mae'r blaenoriaethau'n canolbwyntio ar godi safonau lles a llafar, gan baratoi'n briodol iawn ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a'r rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr eto wedi adnabod yr angen i wella'r ddarpariaeth er mwyn rhoi cyfleoedd ym mhob dosbarth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn nodi'r meini prawf a'r gweithredoedd ar gyfer gwelliant yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn ddigon miniog wrth nodi'r disgwyliadau i fesur effaith y camau gwella ar y ddarpariaeth.

Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd i drefnu a gweithredu gweithgareddau er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau cytûn. Mae gan bob un o'r athrawon gyfrifoldeb am faes y Cwricwlwm i Gymru neu agwedd benodol ar waith yr ysgol. Mae'r cymhorthyddion dysgu'n aelodau allweddol o dîm yr ysgol ac mae'r holl staff yn cyfrannu'n gyson at wella safonau dysgu, lles a medrau cymdeithasol disgyblion.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau. Maent yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn dylanwadu ar ei chyfeiriad yn bwrpasol, er enghraifft trwy fod yn ffrind beirniadol wrth gyflwyno cwrwiclwm lleol yr ysgol. Maent yn deall blaenoriaethau presennol yr ysgol a pham maent yn bwysig. Er enghraifft, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o effaith y pandemig ar gyflawniad a chynnydd disgyblion.

Mae llywodraethwyr ac arweinwyr yr ysgol yn rheoli eu cyllideb yn dda. Mae’r ysgol yn dyrannu ac yn monitro’r grant datblygu disgyblion a chyllid ychwanegol arall yn ofalus, gan sicrhau eu bod yn cefnogi’r disgyblion perthnasol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol ddigon o adnoddau o ansawdd da, sy’n diwallu anghenion disgyblion yn synhwyrol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr yn mynd i’r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn fedrus. Ar y cyd â disgyblion, staff, llywodraethwyr a’r gymuned ehangach, maent wedi llunio gweledigaeth glir ar gyfer datblygiad Cwricwlwm i Gymru. Maent yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i staff ddechrau arbrofi â gwahanol ddulliau o gyflwyno’r cwricwlwm fel darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion atgyfnerthu eu medrau ar draws y cwricwlwm drwy'r dull 'Heriau Hwylus' ar frig yr ysgol.

Mae perthynas gynhyrchiol rhwng yr ysgol a’r rhieni. Mae arweinwyr yn defnyddio dulliau cyfathrebu digidol i hysbysu rhieni am ddigwyddiadau yn rheolaidd. Maent hefyd yn cynnal nosweithiau agored i rannu egwyddorion addysgeg, er enghraifft y sesiynau 'Croeso' i rieni disgyblion meithrin a derbyn.

Darperir cyfleoedd dysgu proffesiynol cyson i staff, sy’n cysylltu’n effeithiol â deilliannau gweithgareddau gwerthuso a blaenoriaethau gwella’r ysgol. Mae’r pennaeth yn cefnogi athrawon i gynnal ymchwil ar agwedd o’u hymarferion dosbarth er mwyn adnabod effaith ar gyrhaeddiad disgyblion. Ar y cyfan, mae prosesau rheoli perfformiad yn gadarn ac yn helpu nodi anghenion staff yn briodol. O ganlyniad, mae ethos o gydweithio byrlymus ac effeithiol sy'n cyfrannu'n sylweddol at ethos croesawgar a chynnes yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/08/2022